

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yng Nghymru (CGM)

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o gyd-destun ehangach Cwricwlwm i Gymru. Mae'r cwricwlwm yn cael ei ategu gan ddiben addysgol, dilyniant a hawl pob dysgwr. Mae'r pedwar diben yn darparu'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer dylunio cwricwlwm, gan lunio'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau y mae ysgolion yn eu darparu i gefnogi dysgwyr i ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog; yn gyfranwyr mentrus, creadigol; yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus; ac yn unigolion iach, hyderus.

Mae Cwricwlwm i Gymru yn rhoi cyfrifoldeb sylweddol am lunio cwricwlwm ar lefel ysgol. Mae disgwyl i athrawon gynllunio a darparu adnoddau ar gyfer dysgu sydd wedi'u harwain gan anghenion eu dysgwyr a'u cymunedau, ac sy'n ymateb iddynt.

Drwy gyflwyno Cwricwlwm i Gymru, cyflwynwyd newidiadau sylweddol i'r fframwaith statudol ar gyfer y pwnc hefyd. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed, heb hawl rhieni i dynnu'n ôl. Mae'n rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, lle anogir dysgwyr i wneud cysylltiadau o fewn y dyniaethau a'r tu hwnt i ffiniau disgyblaethol. Mae'r pwnc wedi ehangu y tu hwnt i astudio crefyddau i gynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol, ac fe'i bwriedir iddo fod yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol o ran cynnwys ac addysgeg.

Er gwaethaf y symudiad tuag at ddylunio cwricwlwm ar lefel ysgol, mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn parhau i fod yn bwnc a benderfynir arno'n lleol. Mae Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'u meysydd llafur cytûn lleol yn parhau i weithredu ochr yn ochr â Chwricwlwm i Gymru, gan ddarparu cyngor arbenigol, dysgu proffesiynol a throsolwg democrataidd lleol. Wrth wneud hynny, maent yn cefnogi ysgolion wrth iddynt ymateb i ganllawiau cenedlaethol a'u trosi'n arfer ystyrion yn yr ystafell ddosbarth.

Dolenni

Canllawiau CGM Llywodraeth Cymru: [Y Dyniaethau: Cynllunio eich cwricwlwm – Hwb](#)

Adroddiad Estyn: [Datblygu maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau \(MDPh\)](#)

Religion, values and ethics: transformational religious education in Wales? - L. Philip Barnes: [Erthygl lawn: Religion, values and ethics: transformational religious education in Wales?](#)